



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio) 2022
DYDDIAD	19 Hydref 2022
GAN	Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Bydd Aelodau'r Senedd am fod yn ymwybodol ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-deddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd Chloe Smith AS, y Gweinidog Gwladol dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith, am gytundeb i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio) 2022 yn gymwys mewn perthynas â Phrydain Fawr.

Bydd yr OS a enwir uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer pwerau a roddir gan adran 8(1) a pharagraff 21 o Atodlen 7 o Ddeddf Ewrop (Ymadael) 2018.

Mae'r OS yn diwygio Rheoliad (UE) Rhif 528/2012 o Senedd Ewrop ac o'r Cyngor ynghylch sicrhau bod cynhyrchion bioleiddiadol ar gael ar y farchnad a bod modd eu defnyddio i osod terfynau amser newydd. Bydd rhaid i'r awdurdod cymwys gymryd camau gweithredu penodol mewn perthynas â chais i awdurdodi cynnyrch bioleiddiadol.

Gosodwyd y rheoliadau gerbron y Senedd ar 18 Hydref a bydd yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2022.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Bydd aelodau eisiau nodi nad yw'r Rheoliadau yn trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Diben y diwygiadau

Defnyddir cynhyrchion bioleiddiadol i ddiogelu pobl ac anifeiliaid, cadw nwyddau, atal plâu fel pryfed neu gnofilod a rheoli firysau, bacteria a ffyngau drwy weithred gemegol neu fiolegol. Mae'n ofynnol i gynhyrchion bioleiddiadol gan Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr (GB BPR) gael grant awdurdodi gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) o fewn cyfnod penodol o bwynt sbardun diffiniedig. Mae'n ofynnol hefyd tynnu cynhyrchion bioleiddiadol oddi ar y farchnad os na roddir awdurdodiadau o fewn 3 blynedd i'r sylwedd gweithredol olaf gael ei awdurdodi.

Er mwyn caniatáu i gynhyrchion bioleiddiadol aros ar y farchnad yn gyfreithiol, mae'r Rheoliadau'n gosod estyniad dros dro ar derfynau amser cyfreithiol lle mae'n ofynnol i geisiadau awdurdodi cynnyrch bioleiddiadol gael eu prosesu gan HSE. Mae'r Rheoliadau'n sicrhau y gall cynhyrchion bioleiddiadol barhau i gael eu rhoi ar y farchnad, a'u defnyddio, nes eu bod wedi'u hawdurdodi o dan GB BPR. O ganlyniad, bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod cynhyrchion bioleiddiadol yn cael eu rheoleiddio'n briodol ac yn cefnogi gweithrediad GB BPR.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol ategol, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y gwelliannau, ar gael yma:

<http://www.legislation.gov.uk/id/ukdsi/2022/9780348239683>

Pam bod cydsyniad wedi'i roi

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru, ac ar ei rhan, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod. Gwnaed hyn hefyd i gadw natur rhyng-gysylltiedig trefn bioleiddiadol Prydain Fawr drwy ymestyn dyddiad cau awdurdodiad cynhyrchion bioleiddiadol dros dro, ledled Prydain Fawr. Mae'r gwelliannau wedi cael eu hystyried yn llawn ac mae'r newidiadau yn dechnegol eu natur ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ddargyfeirio polisi.